

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Questions to the Minister for Economic Development and Transport

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Blaenoriaethau Gwariant Spending Priorities

Q12 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on her spending priorities for the next six months? OAQ0024(SJR)

C12 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei blaenoriaethau gwariant ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ0024(SJR)

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): My spending priorities have been set out in the social justice and regeneration budget. These cover the next three years.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Nodwyd fy mlaenoriaethau gwario yn y gyllideb cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio. Mae'r rhain yn cwmpasu'r tair blynedd nesaf.

Cau Swyddfeydd Post yng Nghanol De Cymru Post Office Closures in South Wales Central

Q13 Owen John Thomas: Will the Minister make a statement on post office closures in South Wales Central? OAQ0038(SJR)

C13 Owen John Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gau swyddfeydd post yng Nghanol De Cymru? OAQ0038(SJR)

Edwina Hart: Post office policy is not a devolved matter, so issues around the closure of post offices are a matter for Post Office Ltd and the UK Government. To date, under Post Office Ltd's network re-invention programme in South Wales Central, 30 post offices have either closed or are due to close.

Edwina Hart: Nid yw'r polisi ar swyddfeydd post yn fater a ddatganolwyd, felly penderfyniad i Swyddfa'r Post Cyf a Llywodraeth y DU yw materion sy'n ymwneud â chau swyddfeydd post. Hyd yma, o dan raglen ad-drefnu rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyf yng Nghanol De Cymru, bwriedir cau 30 o swyddfeydd post, neu maent wedi eu cau eisoes.

Digartrefedd Homelessness

Q14 Mark Isherwood: Would the Minister make a statement on homelessness? OAQ0026(SJR)

C14 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddigartrefedd? OAQ0026(SJR)

Edwina Hart: Homelessness is increasing across Wales and other parts of the UK. The Welsh Assembly Government adopted the national homelessness strategy in 2003 with all-party support. The strategy sets out our commitment to tackle and prevent homelessness through joined-up working at the national and local level.

Edwina Hart: Mae digartrefedd yn cynyddu ledled Cymru ac mewn ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig. Bu i Lywodraeth Cynulliad Cymru fabwysiadu strategaeth genedlaethol ar ddigartrefedd yn 2003 gyda chefnogaeth pob plaid. Mae'r strategaeth yn mynegi ein hymrwymiad i fynd i'r afael â digartrefedd a'i atal, drwy weithio'n gydgysylltiedig ar lefel leol a chenedlaethol.

Cyllid ar gyfer Gostwng Troseddau Crime Reduction Funding

Q15 Ann Jones: Will the Minister make a statement on the use of crime reduction funding in Wales? OAQ0003(SJR)

C15 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd o gyllid ar gyfer gostwng troseddau yng Nghymru? OAQ0003(SJR)

Edwina Hart: Greater financial support than ever before, from the Assembly and the Home Office, is having a significant impact in communities across Wales by supporting community safety partnership projects to tackle crime and disorder, substance misuse and anti social behaviour.

Edwina Hart: Mae mwy o gymorth ariannol nag erioed, gan y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref, yn cael effaith sylweddol mewn cymunedau ledled Cymru drwy gynorthwyo prosiectau partneriaeth diogelwch cymunedol er mwyn mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport

Cyfraddau Cyflogaeth yn Nhor-faen Employment Rates in Torfaen

Q10 Lynne Neagle: What action has the Assembly Government taken to increase employment rates in Torfaen? OAQ0010(EDT)

C10 Lynne Neagle: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i godi'r cyfraddau cyflogaeth yn Nhor-faen? OAQ0010(EDT)

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): 'A Winning Wales' sets out my policies for increasing prosperity and helping people into jobs in all parts of Wales and points to the need to help more people into jobs to raise levels of economic activity. Team Wales is implementing the strategy's action plan to help fulfil the Welsh Assembly Government's vision of a prosperous Welsh economy.

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Mae 'Cymru'n Ennill' yn amlinellu fy mholisiau ar gyfer cynyddu ffyniant a helpu i roi pobl mewn swyddi ym mhob rhan o Gymru ac mae'n dangos yr angen i roi mwy o bobl mewn swyddi er mwyn codi'r lefelau o weithgarwch economaidd. Mae Tîm Cymru wrthi'n rhoi cynllun gweithredu y strategaeth ar waith i helpu i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o economi ffyniannus yng Nghymru.

Lefelau Gwerth Ychwanegol Crynswth yng Nghymru **The Level of Gross Value Added in Wales**

C11 Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau gwerth ychwanegol crynswth yng Nghymru? OAQ0017(EDT)

Q11 Elin Jones: Will the Minister make a statement on the level of Gross Value Added in Wales? OAQ0017(EDT)

Andrew Davies: Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Rhagfyr 2004, y gwerth ychwanegol crynswth, fel pennawd, oedd £37,100 miliwn yng Nghymru yn 2003. Mae hyn yn gynydd o 6 y cant ar lefel 2002, sy'n uwch na'r cynnydd cyfartalog ar draws rhanbarthau'r DU o 5 y cant.

Andrew Davies: According to the latest estimates published by the Office for National Statistics in December 2004, headline gross value added in Wales in 2003 was £37,100 million. This represents an increase of 6 per cent over the level in 2002, which is higher than the average increase across the UK regions of 5 per cent.

Arloesedd ac Entrepreneuriaeth **Innovation and Entrepreneurship**

Q12 Mick Bates: Will the Minister make a statement on the impact of his budget on innovation and entrepreneurship? OAQ0042(EDT)

C12 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith ei gyllideb ar arloesi ac entrepreneuriaeth? OAQ0042(EDT)

Andrew Davies: The high levels of funding that we have invested to boost innovation and entrepreneurship are making a significant contribution towards meeting the challenging targets set out in 'A Winning Wales'.

Andrew Davies: Mae'r lefelau uchel o gyllid a fuddsoddwyd gennym i hybu arloesi ac entrepreneuriaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gyrraedd y targedau heriol a nodwyd yn 'Cymru'n Ennill'.

Anweithgarwch Economaidd **Economic Inactivity**

Q13 Ann Jones: Will the Minister make a statement on the Assembly Government's efforts to tackle economic inactivity in our most deprived communities? OAQ0003(EDT)

C13 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig? OAQ0003(EDT)

Andrew Davies: Helping more people into jobs and developing strong communities are key priorities of 'Wales: A Better Country', and the Welsh Assembly Government is working with key partners, such as Jobcentre Plus, to promote and develop a range of measures that underpin our commitment to create economic and social opportunities across Wales.

Andrew Davies: Mae helpu mwy o bobl i gael swyddi a datblygu cymunedau cryf yn flaenoriaethau allweddol yn 'Cymru: Gwlad Well', ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, megis Canolfan Byd Gwaith, i hyrwyddo a datblygu ystod o gamau sydd yn sail i'n hymrwymiad i greu cyfleoedd economaidd a chymdeithasol ar draws Cymru.

Sefyllfa Gyllidol y DU **The UK's Fiscal Position**

Q14 Mark Isherwood: What discussions has the Minister had with the Chancellor of the Exchequer regarding the impact for Wales of the UK's fiscal position? OAQ0044(EDT)

C14 Mark Isherwood: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Changhellor y Trysorlys ynghylch effaith sefyllfa gyllidol y DU ar Gymru? OAQ0044(EDT)

Andrew Davies: I have regular discussions with

Andrew Davies: Caf drafodaethau rheolaidd gyda

Treasury Ministers and raise issues as appropriate. Wales benefits from low inflation, low unemployment, low interest rates, large increases in public spending in the last spending review and a range of measures announced in HM Treasury's pre-budget report for promoting enterprise, productivity and fairness in Wales.

Gweinidogion y Trysorlys a byddaf yn codi materion fel sy'n addas. Mae Cymru'n cael budd o chwyddiant isel, diweithdra isel, cyfraddau llog isel, cynnydd mawr mewn gwariant cyhoeddus yn yr arolwg diwethaf o wariant ac ystod o fesurau a gyhoeddwyd yn adroddiad rhag-gyllidebol Trysorlys EM i hybu mentergarwch, cynhyrchiant a thegwch yng Nghymru.

Teithiau Bws am Ddim i Bobl dros 60
Free Bus Travel for the Over 60s

Q15 Michael German: Will the Minister make a statement on free bus travel for the over 60s? OAQ0035(EDT)

Andrew Davies: The free bus pass scheme providing travel to elderly and disabled people on local buses is hugely successful. Our first review in 2003 demonstrated that local authorities had issued more than 400,000 free bus passes, and I am commissioning a further review. Bus operators have invested in vehicles and services.

C15 Michael German: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar deithiau bws am ddim i bobl dros 60 oed? OAQ0035(EDT)

Andrew Davies: Mae'r cynllun tocynnau bws am ddim sy'n caniatáu i bobl hŷn a'r anabl deithio ar fysiau lleol, yn llwyddiannus dros ben. Dangosodd ein hadolygiad cyntaf yn 2003 fod awdurdodau lleol wedi dosbarthu dros 400,000 o docynnau bws am ddim, ac yr wyf yn comisiynu adolygiad pellach. Mae cwmnïau bysiau wedi buddsoddi mewn cerbydau a gwasanaethau.